**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 22 Hydref, 2018**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Llun, 22 Hydref, 2018 ac fe ddaw yn weithredol ar unwaith. Mae'r mater yn ddarostynegdig i gymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn ac felly nid oes modd ei alw i mewn.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Lewis Davies, Glyn Haynes, R.Llewelyn Jones, Alun Roberts

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Ieuan Williams

(10:00 y. b. tan 10:10 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Cynllun Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru: Y Ddogfen Gynnig**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Cadarnhau'r Ddogfen Gynnig ac argymell bod y Cyngor Sir yn ei mabwysiau fel (1) sail strategaeth ranbarthol tymor hwy ar gyfer twf economaidd a (2) y cais rhanbarthol ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau blaenoriaeth a ddefnyddir i ffurfio cynnwys CynllunTwf ar y cam Penawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau. Nid yw mabwysiadu yn ymrwymo'r Cyngor i fuddsoddiad ariannol o gwbl ar y cam hwn ac mae'n amodol ar nodi risgiau a buddion ariannol y Cynllun Twf terfynol yn fanwl, i'w hystyried yn llawn, pan gaiff y Cynllun terfynol ei gyflwyno er cymeradwyaeth yn ddiweddarach.**<br>• **Awdurdodi'r Arweinydd i ymrwymo'r Cyngor i Benawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau law yn llaw ag arweinyddion gwleidyddol a phroffesiynol o'r naw partner statudol arall a** |

| | |
|---|---|
| | **gynrychiolir ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, gyda'r Ddogfen Gynnig yn gosod ffiniau ar gyfer cytundeb Penawdau'r Telerau.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Bwrw ymlaen gyda'r Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn** |